BETH ALLWCH CHI EI WNEUD?

CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Gellir defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyflawni sawl un o nodau Dathlu Addysg Grefyddol (Mawrth 2011). Er enghraifft:

- **Darparu llwyfan i arddangos Addysg Grefyddol bleserus a pherthnasol;**
- **Dathlu Addysg Grefyddol a'i gyfraniad i addysg a datblygiad personol disgyblion**
- **Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfraniad Addysg Grefyddol i gymdeithas a chydlyniant cymdeithasol;**
- **Datblygu a chynnal presenoldeb cryf i Addysg Grefyddol yn y gymuned ar-lein a'r cyfryngau newyddion;**
- **Annog creadigrwydd a rhagoriaeth mewn Addysg Grefyddol.**

I'r athrawon hynny sy'n dymuno cymryd rhan ym mis cenedlaethol Dathlu Addysg Grefyddol, gallai'r cyfryngau cymdeithasol eu helpu i lunio syniadau a digwyddiadau trwy weithio ar y cyd – gyda'u myfyrwyr eu hunain a/neu eraill sy'n trefnu digwyddiad lleol neu genedlaethol.

Beth yw'r cyfryngau cymdeithasol?

Mae'r dechnoleg Web 2.0 yn un ryngweithiol sy'n galluogi'r rheiny sy'n cael mynediad at y cyfrwng i ychwanegu'r cynnwys yn ogystal â'r rheiny sy'n ei gynhyrchu.

Felly byddai gwefan neu adroddiad yn enghraifft o dechnoleg oddefol Web 1.0 gan nad yw'r defnyddiwr yn gallu newid y cynnwys nac yn gallu rhoi sylwadau, sydd ar gael i bob defnyddiwr, am y cynnwys. Mae Blog neu drafodaeth yn dechnoleg math Web 2.0 gan fod y defnyddwyr a'r cyfranwyr yn siapio datblygiad y cynnwys.

Mae'n debyg mai'r dechnoleg fwyaf defnyddiol yn hyn o beth yw'r safleoedd rhwydweithio poblogaidd **Twitter** a **Facebook**. 'Technoleg wthio' yw'r safleoedd hyn sy'n rhoi'r newidiadau a'r datblygiadau diweddaraf i'w defnyddwyr heb iddynt orfod ymweld â'r safleoedd. Mae llawer o athrawon yn defnyddio'r **Fforwm Athrawon TES** (http://www.tes.co.uk/forums.aspx) i gael gwybodaeth gyfredol ac i gymryd rhan mewn trafodaethau ag eraill.

Mae **Twitter** yn system gyhoeddiadau a rhwydweithio cymdeithasol. Mae'r defnyddwyr yn cofrestru ac yna'n dilyn 'Twitwyr' eraill neu'n cael eu dilyn gan bobl y maent wedi rhoi caniatâd iddynt eu dilyn. Mae pob 'twît' yn gyhoeddus ac yn cynnwys 140 cymeriad. Mae'r wybodaeth a roddir felly yn gryno ac yn cyfleu ystyr yn syml. Mae Twitter bellach yn cael ei ddefnyddio gan nifer o sefydliadau - e.e. Rhif 10, Y Swyddfa Dramor, Y Tŷ Gwyn, elusennau ac amgueddfeydd, newyddiadurwyr a phapurau newydd - i gyhoeddi gweithgareddau dyddiol ac, yn bwysig, i roi cysylltiadau i wefannau allanol cysylltiedig. Yn ogystal â 'bwledi gwybodaeth', gall 'Twîts' hefyd ddilyn edeifion gan ddefnyddio'r arwydd # i barhau â stori neu fater o ddiddordeb.

Mae **Facebook** hefyd yn system sy'n seiliedig ar gyfeillion. Mae serfiwr Facebook yn anfon hysbysiadau at ffrindiau pan fo cynnwys newydd yn cael ei ychwanegu. Yn ogystal â'i gyfleusterau anfon negeseuon, mae Facebook yn galluogi ei aelodau i rannu cyfryngau.

Mae system fel **Google Maps** yn eich galluogi i greu lle i hysbysebu digwyddiadau a gadael i ddilynwyr weld ble mae digwyddiadau'n digwydd yn eu rhanbarth daearyddol. Mae hyn eisoes wedi'i ddatblygu ar gyfer y safle Llwybrau Addysg Grefyddol (www.retrails.org.uk).

Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gynhyrchu deunyddiau a chreu etifeddiaeth.

Mae **Flickr** ac **YouTube** yn adnoddau defnyddiol iawn gan eu bod yn lleoedd y gall bobl rannu adroddiadau a chanlyniadau o'r dathliadau a phrosiectau y maent wedi'u cynnal yn eu hardaloedd lleol.

Flickr: [http://www.flickr.com/] Safle i rannu ffotograffau yn ogystal ag anfon delweddau. Gall y rheiny sy'n eu hanfon eu tagio fel bo modd i bobl eraill eu gweld a rhoi sylwadau amdanynt.

YouTube: [http://www.youtube.com/] Safle i rannu fideos lle gallwch anfon fideos yn ogystal â rhoi sylwadau ac ymatebion. Mae grŵp defnyddwyr Athrawon Addysg Grefyddol eisoes yn bodoli (gweler erthygl gan Hopkins, P, (2008) - My Tube, Your Tube, Our Tube RE Today Cyf. 26:1) lle ceir postiadau llawn dychymyg gan fyfyrwyr Addysg Grefyddol.

Mae cyfleusterau megis **SlideShare** a **GoogleDocs** yn galluogi pobl/grwpiau i rannu adnoddau y maent wedi'u cynhyrchu. Yn hwnnw, gellir gwe-letya testun, delweddau, graffigwaith a fideo. Gall y rheiny sy'n cynhyrchu deunyddiau ar gyfer cystadlaethau ddefnyddio'r cyfleusterau hyn hefyd.

Slideshare: [http://www.slideshare.com/] Cyfleuster i rannu deunyddiau cyflwyniadol y gellir eu gadael ar agor i'w golygu neu eu cloi.

GoogleDocs: [http://www.google.com/docs] Mae'n eich galluogi i rannu dogfennau, yna gall y derbynnydd eu lawrlwytho a'u golygu. Gall y rhain fod ar ffurf prosesu geiriau, taenlen neu gyflwyniad.

Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i annog cydweithio

Gellir defnyddio rhwydweithiau megis **Ning** neu **Blogger** rhwng grwpiau lleol / cenedlaethol. Mae **Skype** a **Today's Meet** hefyd yn offer defnyddiol.

Ning [http://www.ning.com/] Offeryn rhwydweithio sy'n cynnwys Fforwm a Blog i alluogi grwpiau i gynllunio digwyddiadau a dathliadau ar y cyd.

Blogger [http://www.blogger.com/] Offeryn tebyg eto.

Skype [http://www.skype.com/] llais dros brotocols y rhyngrwyd (VOIP) sy'n eich galluogi i wneud galwadau pwynt-i-bwynt am ddim a thelegyfathrebiadau rhad eraill yn ogystal â system negeseuon di-oed.

Today's Meet [http://www.todaysmeet.com/] System negeseuon byrdymor sy'n seiliedig ar Twitter. Mae'n ddefnyddiol iawn ar gyfer cyfarfodydd byr ar y cyd rhwng grwpiau.

Enghreifftiau o sut y gellir defnyddio cyfryngau cymdeithasol i Ddathlu Addysg Grefyddol

Mae athro wedi cynnal cystadleuaeth farddoniaeth ardderchog yn ei ddosbarth i ddathlu Addysg Grefyddol ac mae'r plant wedi cynhyrchu eu cerddi ar ffurf ffeiliau llun. Mae'r athro'n llwytho'r lluniau hyn ar wal Facebook ac yn ychwanegu neges; mae athro arall yn cael ei ysbrydoli gan hyn ac yn ymgymryd â phrosiect tebyg.

Mae dosbarth wedi bod yn datblygu cyfres o 'hysbysebion' hanner awr ar gyfer Addysg Grefyddol TGAU ac mae'r athro wedi penderfynu, ar ôl gwneud asesiadau cyfoedion, llwytho'r rhai gorau ar y sianel Dathlu Addysg Grefyddol ar YouTube fel bod eraill yn gallu eu gweld a rhoi sylwadau amdanynt. Mae athro mewn rhan arall o'r wlad yn eu gweld ac yn gofyn caniatâd i'w defnyddio yn noson opsiynau blwyddyn 9 ei hysgol.

Mae grŵp o blant yn dymuno hysbysebu eu digwyddiad 'pryd ar glud' i ddathlu Addysg Grefyddol. Maent yn defnyddio'r map rhyngweithiol ar GoogleMaps ar wefan genedlaethol Dathlu Addysg Grefyddol (www.celabratingre.org) i wneud hynny.

Mae ysgol gynradd yn falch iawn o'r gystadleuaeth y mae wedi'i gynnal i lunio logo ar gyfer eu llyfrau gwaith Addysg Grefyddol. Maent am rannu'r rhai gorau ac felly'n llwytho'r lluniau ar Flickr a chynhyrchu cyflwyniad i'w roi ar SlideShare.

Mae clwstwr o ysgolion cynradd yn awyddus i ddatblygu gweithgaredd Athroniaeth i Blant (P4C) sy'n tarddu o gwestiwn crefyddol felly maent yn penderfynu defnyddio Ning i gynnal cymuned ymchwiliol rithwir ynglŷn â'r cwestiwn – Sut mae ffydd yn newid eich ymddygiad?